



CYMDEITHAS CYFIEITHWYR CYMRU

Adroddiad ar weithgareddau 2011-12

Noddir Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Bryn Menai, Ffordd Caergybi, Bangor, LL57 2JA
Ffôn: 01248 371839
Ebost: swyddfa@cyfieithwycymru.org.uk
Gwefan: www.cyfieithwycymru.org.uk

Cofrestrwyd yng Nghymru: 4741023

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Adroddiad ar weithgareddau 2011 - 12

Prif nod y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn fu parhau i gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol ac i wella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

Gwnaed hyn mewn sawl dull a modd, gan gynnwys:

- cynyddu a datblygu ein haelodaeth i gynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr;
- cynnal arholiadau aelodaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd;
- cynnal rhaglen amrywiol a llwyddiannus o hyfforddiant i hybu datblygiad proffesiynol;
- meithrin perthynas â sefydliadau Addysg Uwch, gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol;
- buddsoddi mewn ymchwil academiaidd er lles a datblygiad y proffesiwn/diwydiant cyfieithu;
- cynnal a meithrin ein cysylltiadau â chyrff a sefydliadau eraill;
- hyrwyddo a marchnata'r Gymdeithas a'i haelodau.



Cynyddu a datblygu ein haelodaeth i gynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr

Ar 31 Mawrth 2012, roedd gan y Gymdeithas **352 o aelodau unigol** (o'i gymharu â 348 ar 31 Mawrth 2011), fel a ganlyn:

Aelodau Cyflawn - 163

Aelodau Sylfaenol - 176

Aelodau Cyfieithu ar y Pryd - 59 (13)*

* Y ffigwr rhwng cromfachau yw nifer yr aelodau sy'n aelodau CAP yn unig. Mae'r lleill naill ai'n aelodau Cyflawn (27) neu'n aelodau Sylfaenol (19) hefyd.

Mae gennym **7 Aelod Corfforaethol**: Calan, Cyfiaith, Cymen, Pennawd, Prysg, Testun a Trywydd.

Cymeradwywyd ein **8 Aelod Sefydliadol** cyntaf: Cyngor Gwynedd, Cyngor Ceredigion, Cyngor Powys, Canolfan Gymraeg San Helen (Cyngor Abertawe a Chyngor Castell-nedd Port Talbot), Prifysgol Bangor, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Parhawn i ddatblygu trefn sy'n cydnabod ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth o unedau cyfieithu sy'n bod yn y sector cyhoeddus.

Sefydlwyd categori newydd o aelodaeth ar gyfer **Myfyrwyr**. Bydd yn fodd i dynnu darpar gyfieithwyr o blith myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau cyfieithu ôl-raddedig i mewn i rwydweithiau'r Gymdeithas. Ni fydd gan aelodau'r categori hwn bleidlais yng ngweithgarwch y Gymdeithas.

Penderfynodd Bwrdd y Cyfarwyddwyr ddiddymu'r categori '**Cyfaill**'. Fe gymerwyd y penderfyniad wedi i ni bwyso a mesur rôl y categori hwn o fewn y Gymdeithas yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'r gwerth yr oedd y 'Cyfeillion' yn ei gael am eu tanysgrifiad. Ffactor arall oedd y nifer fechan o 'Cyfeillion' oedd gan y Gymdeithas.

Ers mis Ebrill 2011 caiff holl aelodau'r Gymdeithas eu clymu gan **God Ymddygiad Proffesiynol**, y tro cyntaf i hyn ddigwydd ym maes cyfieithu Cymraeg/Saesneg.

Cynnal arholiadau aelodaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd

Cynhaliwyd **Arholiadau Aelodaeth Testun** ar 9 Ebrill 2011 ac 1 Hydref 2011. Roedd canlyniadau'r arholiadau fel a ganlyn:



	Ebrill 2011		Hydref 2011	
Cyfanswm yr holl ymgeiswyr *	41		47	
	Ymgeiswyr	Llwyddo	Ymgeiswyr	Llwyddo
Cyflawn *	18	0	25	9
Papur 1 - i'r Gymraeg	16	0	23	8
Papur 2 - i'r Saesneg	7	0	7	1
Sylfaenol *	23	5	22	12
Papur 1 - i'r Gymraeg	22	5	18	8
Papur 2 - i'r Saesneg	7	0	12	4

* Bu i rai ymgeiswyr sefyll y ddau bapur

Am y tro cyntaf erioed ym mis Hydref 2011, cafwyd mwy o ymgeiswyr yn sefyll yr arholiadau Cyflawn na'r rhai Sylfaenol, arwydd fod ymdrechion y Gymdeithas i fynnu mai Aelodau Cyflawn ddylai gael eu defnyddio gan gyrff a sefydliadau yn dwyn ffrwyth.

Serch hynny, mae'r ffaith fod cyn lleied yn llwyddo yn yr arholiadau Cyflawn a bod cyfieithwyr sydd yn gweithio ar lefel uwch yn methu â chyrhaedd y safon angenrheidiol yn parhau i beri pryder. Mae llawer o bethau da ac addawol i'w gweld yng nghyfieithiadau'r ymgeiswyr ac roedd nifer fawr ohonynt yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig mewn un darn ond yn methu bodloni'r arholwyr yn y papur cyfan. Mae'n amlwg fod ymgeiswyr yn fwyfwy ymwybodol o'r safon a ddisgwyliar ar y lefel hon, ond gwelwyd llawer gormod o wendidau elfennol na ellir eu cyfiawnhau hyd yn oed o dan amodau arholiad, megis diffyg golygu a darllen y gwaith yn ddigon manwl cyn ei gyflwyno, mynegiant trwsogl, a llawer o waith nad oedd yn darllen fel darn o Gymraeg/Saesneg naturiol.

Roedd safon cyfieithiadau ymgeiswyr yr arholiadau Sylfaenol yn amrywiol. Cafwyd sawl ymgeisydd addawol a phrin bellach yw'r ymgeiswyr gwirioneddol anobeithiol (ffraith y gellir ei phriodoli i'r e-weithdy cyfieithu lle caiff unigolion syniad go dda o'u safon). Y gwendidau cyffredinol oedd: diffyg meistrolaeth o hanfodion gramadeg yr iaith; diffyg gwybodaeth o gystrawennau ac idiomau Cymraeg/Saesneg; diffyg atalnodi; methu defnyddio geiriadur yn briodol; ac, fel yn y Cyflawn, diffyg golygu a darllen y gwaith yn ddigon manwl cyn ei gyflwyno.

Nid oedd neb yn deilwng o **Wobr Goffa Wil Petherbridge** yn 2011. Cyflwynir Gwobr Goffa Wil Petherbridge - er cof am gyn-Ysgrifennydd y Gymdeithas ac arloeswr ym myd cyfieithu yng Nghymru - i'r ymgeisydd mwyaf addawol am Aelodaeth Sylfaenol, cyfieithu i'r Gymraeg, yn ystod y ddwy rownd arholi a gynhelir yn yr hydref a'r gwanwyn dilynol, os bernir bod teilyngdod.

Cytunwyd ar drefn arholi newydd, un lle bydd tîm o 3 arholwr - Prif Arholwr a dau Ddirprwy, y naill yn gyfrifol am yr arholiadau i'r Gymraeg a'r llall i'r Saesneg - yn gyfrifol am yr holl faterion sy'n ymwneud â chynnal arholiadau aelodaeth y Gymdeithas ar y lefelau Cyflawn a Sylfaenol. Y tîm fydd yn gyfrifol am gyfeiriad strategol y drefn arholi a bydd aelodau'r tîm yn gweithio'n agos gyda'i gilydd, a chyda'r swyddfa, i gyflawni hyn. Y Prif Arholwr fydd Fiona Gannon a'r 2 Ddirprwy fydd Mary Jones i'r Gymraeg a Meinir McDonald i'r Saesneg. Newidiwyd aelodaeth y BAT i gynnwys yr arholwyr fel aelodau craidd, a bydd marcwyr pob rownd yn ymuno â hwy i ffurfio'r aelodaeth ar gyfer y rownd honno'n unig. Bydd hyn y golygu y caiff ymgeiswyr eu canlyniadau'n gynt nag yn y gorffennol.



Cynhaliwyd unig **Brawf CAP** y flwyddyn ar 16 Mawrth 2012 mewn stiwdios sain proffesiynol yng Nghaerdydd a'r Groeslon. Cafwyd 9 ymgeisydd a llwyddodd 7 ohonynt.

Cynnal rhaglen amrywiol a llwyddiannus o hyfforddiant

Trefnwyd rhaglen amrywiol a llwyddiannus o hyfforddiant i hybu datblygiad proffesiynol, gan gynnwys gweithdai, cynllun mentora a'r e-weithdy cyfieithu, a chafwyd 365 o gofrestrïadau. Y Gymdeithas yw'r unig gorff sy'n cynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol a hyfforddiant rheolaidd i gyfieithwyr a darpar gyfieithwyr.

Elwodd 226 o unigolion gwahanol o'r gweithgareddau hyn. Roedd 108 ohonynt eisoes yn aelodau o'r Gymdeithas. O'r gweddill, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gweithio fel cyfieithwyr i'r llywodraeth ganolog, i awdurdodau lleol, y sector addysg, neu sefydliadau cyhoeddus eraill. Mae hynny'n arwydd fod y sefydliadau hynny'n gweld gwerth yn y ddarpariaeth arbennig a phwysig hon gan y Gymdeithas i hwyluso datblygiad proffesiynol eu staff.

Trefnwyd 11 **gweithdy wyneb-yn-wyneb** yn ystod y flwyddyn, y rhan fwyaf ohonynt mewn mwy nag un lleoliad ar hyd a lled Cymru. Cafwyd ymateb rhagorol iddynt ar y cyfan. Ceir rhestr ohonynt yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

Parhaodd poblogrwydd **yr e-weithdy cyfieithu** fel dull effeithiol o gynnig hyfforddiant i bobl yn eu hamser eu hunain, ac o fewn amserlen a strwythur. Wedi iddynt gyfieithu 2 ddarn o'r un hyd a safon ag yn yr arholiad Sylfaenol, fe gânt sylwadau ar eu cyfieithiadau gan diwtoriaid sy'n gyfieithwyr proffesiynol ac yn arholwyr. Anelwyd yr e-weithdy cyfieithu yn bennaf at ddarpar ymgeiswyr yr arholiad Sylfaenol. Cynhaliwyd 7 e-weithdy cyfieithu yn ystod y flwyddyn a chymerodd 64 ran ynddynt.

Elwodd 4 unigolyn o'r **Cynllun Mentora (Testun)** yn ystod y flwyddyn.

Cyflwynwyd 2 gynllun hyfforddiant CAP newydd yn ystod y flwyddyn. Rhydd yr **Ymarferion CAP** gyfle i bobl gyfieithu mewn stiwdio ddwywaith er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â threfniadau a gofynion y Prawf CAP, a chael sylwadau beirniadol ac adeiladol gan diwtor a thrafodaeth ar y cyfieithu. Cymerodd 11 o bobl ran yn y cynllun hwn. Dechreuodd 2 ar y **Cynllun Mentora (CAP)**.

Meithrin perthynas â sefydliadau Addysg Uwch

Bu'r Gymdeithas yn meithrin perthynas agos â swyddogion y **Coleg Cymraeg Cenedlaethol** ac mae'n galonddid fod y Coleg yn cydnabod fod cyfieithu'n faes pwysig ac yn un y dymuna'i gefnogi.

Yn Rhagfyr 2011 cyhoeddodd y Coleg y byddai'n ariannu dwy swydd academiaidd newydd ym maes Astudiaethau Cyfieithu o dan Gynllun Staffio Academiaidd y Coleg, y naill ym Mhrifysgol Abertawe a'r llall ym Mhrifysgol Bangor (a oedd yn cynnwys elfen o gydweithio â Phrifysgol Aberystwyth). Ond gan nad oedd y ceisiadau fel yr oeddent yn cynnig fframwaith cenedlaethol nac yn gwarantu na fyddai yna ddyblygu o ran y ddarpariaeth a'r cyllido (a nifer y myfyrwyr yn gymharol fach) nid oedd modd cytuno i ariannu'r ceisiadau fel y'u cyflwynwyd.



Cynhaliwyd cyfarfod yn Aberystwyth ar 25 Ionawr 2012 a chynrychiolwyr o Brifysgol Bangor, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant, a'r Gymdeithas yn bresennol. Cafwyd trafodaeth lawn ac amrywiol ar wahanol elfennau o'r maes ond ni lwyddwyd i ddod i gytundeb ar ffordd ymlaen. (Er mwyn adnabod ffyrdd o fuddsoddi ym maes Astudiaethau Cyfieithu, sefydlodd y Coleg Grŵp Tasg a Gorffen ym mis Gorffennaf 2012 i gynnig fframwaith cenedlaethol addas i'w alluogi i roi ystyriaeth bellach i gyllido'r ddau gais a dderbyniwyd, o bosibl ar ffurf wahanol i'r ffordd y'u cyflwynwyd).

Bu'r Gymdeithas yn bartner allweddol yn natblygiad Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfieithu ar y Pryd **Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant**, y cymhwyster cyntaf i'w gynnig mewn cyfieithu ar y pryd Cymraeg/Saesneg. Bydd y Dystysgrif yn cynnig cyfle i ennill cymhwyster academiaidd sy'n berthnasol i'r gweithle ac yn cwrdd ag anghenion y proffesiwn/diwydiant cyfieithu. Bydd yn addas i ddechreuwyr ac i rai â phrofiad o gyfieithu ar y pryd. Cynhelir sesiynau dysgu dwys ar gampws y Brifysgol yn Llanbedr Pont Steffan, lle mae labordy iaith bwrpasol, yn ogystal ag yn y gweithle, a bydd hynny'n rhoi elfen alwedigaethol bwysig i'r cwrs. Gobeithir y bydd y myfyrwyr cyntaf yn dechrau ar eu cwrs ym mis Tachwedd 2012.

Bu'r Gymdeithas yn cydweithio ag **Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd**, ar ddatblygu modiwl cyfieithu galwedigaethol i israddedigion blwyddyn 3, modiwl a gaiff ei gyflwyno am y tro cyntaf ym mlwyddyn academiaidd 2012-13.

Mae'r Gymdeithas yn bartner o'r tu allan i'r byd academiaidd ym mhrosiect 6-mis **Ysgol leithoedd Modern Prifysgol Bangor**, 'Diwylliannau cyfieithu: Rhwydwaith ymchwil cyfieithu', y cafodd y Brifysgol grant gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (yr AHRC) i'w redeg. Bwriad y prosiect yw sefydlu a datblygu rhwydwaith i'r sawl sy'n ymchwilio i gyfieithu yng Nghymru. Y nod fydd hybu disgyblaeth Gwyddor Cyfieithu yng Nghymru a chodi proffil Cymru o fewn y ddisgyblaeth. Mae aelodau'r rhwydwaith yn ysgolheigion o brifysgolion Bangor, Caerdydd ac Abertawe.

Buddsoddi mewn ymchwil academiaidd

Bu Dawn Wooldridge o Abertawe yn llwyddiannus yn ei chais i wneud PhD ym Mhrifysgol Bangor yn yr Adran Ieithyddiaeth ac ar y cyd â'r Uned Technolegau Iaith yng Nghanolfan Bedwyr. 'Proffilio gwallau: astudiaeth o sut mae darpar gyfieithwyr Saesneg-Cymraeg yn cyfieithu' yw pwnc ei hymchwil. Bydd hi'n proffilio ac yn dadansoddi'r gwallau a welir mewn cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, a'i nod fydd ceisio cynnig argymhellion ynghylch gwella'r hyfforddiant sydd ar gael. Bydd y Gymdeithas yn noddi PhD Dawn am gyfnod o 2 flynedd.

Bydd traethawd PhD Dawn yn ymestyn yr ymchwil a wnaeth ar gyfer y radd MRes a enillodd yn 2011, gradd a noddwyd gan y Gymdeithas. Pwnc yr ymchwil hwnnw oedd 'Gwella Cysill at ddefnydd cyfieithwyr: adnabod ymyrraeth gan yr iaith Saesneg mewn testunau Cymraeg'. Mae'r traethawd ar wefan y Gymdeithas.

Mae'r PhD yn rhan o'r cynllun KESS a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.



Cynnal a meithrin cysylltiadau â chyrrff a sefydliadau

Roedd y Gymdeithas yn un o brif bartneriaid **Bwrdd yr Iaith Gymraeg**. Bu'n aelod allweddol o Fforwm Cyfieithu Bwrdd yr Iaith Gymraeg a bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn bresennol yn y 3 chyfarfod a gynhaliwyd yn ystod 2011-12. Fel un o brif bartneriaid **Bwrdd yr Iaith Gymraeg**, mynychodd y Prif Weithredwr gyfarfodydd y prif bartneriaid yn selog. (Bydd y grŵp hwn yn parhau dan y teitl Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg, ac Uned y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ei gydlynw). Cynrychiolwyd y Gymdeithas ar Banel Enwau Lleoedd y Bwrdd gan Meinir McDonald a'r Panel Safoni Termau gan Richard Glyn Roberts.

Parhaodd perthynas agos y Gymdeithas â **Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi**. Yn ei anerchiad ar Stondin Cyfiawnder Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, cyfeiriodd Mr Ustus Lloyd Jones at safon uchel y gwasanaeth CAP a geir yn y llysoedd ac at gyfraniad y Gymdeithas wrth sicrhau hyn: "Mae defnyddio dwy iaith mewn gwrandawiadau yn y llysoedd yn golygu bod cyfieithu dibynadwy a chywir yn hanfodol. Rwy'n falch o ddweud bod gennym dîm rhagorol o gyfieithwyr ar y pryd sy'n gwneud cyfraniad mawr at weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Rwy'n arbennig o ddiolchgar i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru am ymateb mor gadarnhaol i'n cais yn 2008 i sefydlu trefniant ffurfiol i asesu medrusrwydd cyfieithwyr y llysoedd. Mae hyn wedi sicrhau mai cyfieithwyr ar y pryd o'r safon uchaf un yn unig a benodir i gyfieithu yng ngwrandawiadau'r llysoedd."

Cryfhawyd y berthynas rhwng y Gymdeithas a **Thŷ Cyfieithu Cymru a Thŷ Newydd Llanystumdwy**. Y Gymdeithas a noddodd Ffon Farddol a gafodd enillydd Her Gyfieithu 2011, Hywel Meilyr Griffiths, am ei gyfieithiad celfydd o'r gerdd 'Old Bank Notes' gan Lin Sagovsky. Cyflwynwyd y ffon iddo gan Berwyn Prys Jones mewn seremoni ar stondin Prifysgol Aberystwyth yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam. Ar 10-11 Mawrth 2012 cynhaliwyd yr ail weithdy preswyl ar gyfieithu llenyddol yn Nhŷ Newydd, Llanystumdwy.

Roedd y Prif Weithredwr yn aelod o'r **Grŵp Cyngori ar Strategaeth y Gymraeg** dan gadeiryddiaeth Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Cyhoeddwyd 'Iaith fyw: iaith byw' Strategaeth y Gymraeg 2012-17' ar 1 Mawrth 2012.

Gwahoddwyd y Gymdeithas i fod yn aelod o **Fwrdd Prosiect Rhannu Adnoddau Cyfieithu Llywodraeth Cymru** wrth i'r prosiect symud i'r cam cyflawni. Mae'r prosiect yn cynnwys tri llif gwaith: Pobl, Prosesau a Systemau, a Chaffael.

Cafodd Menter Iaith Conwy gyllid o'r Cynllun Datblygu Gwledig i sefydlu **Cynllun Cyfieithu Cymunedol** yng ngogledd Cymru. Gwahoddwyd y Gymdeithas i fod yn aelod o'r grŵp llywio.

Ymatebodd y Gymdeithas i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar **Wasanaethau Dwyieithog y Cynulliad** ym mis Medi 2011. Ynddo, pwysleisiwyd yr angen i ddarparu Cofnod cwbl ddwyieithog; a'r angen i ymddiried gwaith cyfieithu i gyfieithwyr proffesiynol cymwys. Ym mis Mawrth 2012 gwahoddwyd y Gymdeithas i gyflwyno tystiolaeth lafar ynghylch Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol) i Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad.

Cydweithiodd y Gymdeithas â sawl sefydliad cyhoeddus er lles a datblygiad y proffesiwn, gan gynnwys Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus.



Mae'r Gymdeithas yn aelod o: FIT (Fédération Internationale des Traducteurs / International Federation of Translators); Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Mantell Gwynedd; y Sefydliad Materion Cymreig; a Mudiadau Dathlu'r Gymraeg.

Hyrwyddo a marchnata'r Gymdeithas a'i haelodau

Darlith Goffa Hedley Gibbard

Daeth cynulleidfada deilwng i wrando ar Gareth Davies Jones yn traddodi **Darlith Goffa Hedley Gibbard** brynhawn dydd Mawrth yr Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam. 'Nene Ene': astudiaeth o dafodiaith y Rhos, oedd ei bwnc.

Mae'r gwaith o ddatblygu **gwefan y Gymdeithas** yn mynd rhagddo'n barhaus. Crëwyd cronfa ddata newydd i ddal gwybodaeth am ein haelodau a newidiwyd y ffordd y mae'r enwau'n ymddangos ar y wefan.

Mabwysiadwyd trefn o wneud yn siŵr fod enwau'r aelodau ar y wefan yn gwbl gyfredol. Bellach, os na fydd aelod wedi talu ei dâl aelodaeth erbyn 1 Mehefin bob blwyddyn caiff ei enw ei ddileu ar y diwrnod hwnnw (ond bydd yn ailymddangos cyn gynted ag y cawn ni'r tâl).

Crëwyd **logo arbennig** i'w ddefnyddio gan yr aelodau Cyflawn, CAP, Corfforaethol a Sefydliadol, yn ogystal â chyfarwyddyd ynghylch defnyddio enw'r Gymdeithas.

Mae **hysbysebion y Gymdeithas** yn cynnwys y neges "Wrthi'n chwilio am gyfieithydd? Ewch i'r unig le i ddod o hyd i gyfieithydd cymwys: www.cyfieithwycymru.org.uk". Mae sawl un wedi dweud ei fod wedi sylwi ar yr hysbysebion sy'n ymddangos yn 'Golwg' a'r 'Cymro' ac mae hyn yn codi proffil y Gymdeithas.

Cymeradwywyd cais y Gymdeithas i gael ei chynnwys ar **restr Cyllid a Thollau EM o gyrrff proffesiynol cymeradwy** - Rhestr 3 o dan Adran 343/344 Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003. Golyga hyn y gall aelodau hawlio'u tâl aelodaeth yn erbyn treth.

Y sefyllfa ariannol

Derbyniodd y Gymdeithas grant o £97,269 gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer 2011-12, o'i gymharu â £109,844 yn 2010-11. Wrth gydnabod yn ddiolchgar iawn y nawdd blynyddol tuag at gynnal y Gymdeithas a gafwyd gan y Bwrdd, roeddem yn naturiol yn siomedig i gael toriad arall yn y grant.

Roedd y grant yn fodd i'r Gymdeithas gyflogi'r tri aelod o staff parhaol, cynnal y drefn arholi, a threfnu rhaglen o hyfforddiant, datblygiad proffesiynol parhaus a digwyddiadau.

Serch y cynnydd yn nifer yr aelodau, bu lleihad bychan yn y taliadau aelodaeth: £42,381 o'i gymharu â £43,500 yn 2010-11. Bu cynnydd yn yr incwm o gynnal arholiadau a phroffion CAP: £10,109 o'i gymharu â £9,180 yn 2010-11. Roedd yr incwm o weithgarwch datblygiad proffesiynol a hyfforddiant yn llai: £13,090 o'i gymharu â £15,661 yn 2010-11, ond mae darpariaeth y Gymdeithas



yn parhau i ateb y galw am hyfforddiant proffesiynol ac yn werthfawr a phoblogaidd ymysg cyfieithwyr a chyflogwyr.

Rhoddodd Ann Corkett y gorau i fod yn Drysorydd y Gymdeithas wedi sawl blwyddyn yn y swydd. Gwnaeth gyfraniad gwerthfawr i waith y Gymdeithas yn y swydd honno, cyfraniad a werthfawrogwyd yn fawr gan staff y swyddfa a'r cyfarwyddwyr ac un y gall holl aelodau'r Gymdeithas fod yn hynod ddiolchgar amdano. Ni fyddwn yn penodi Trysorydd arall yn ei lle, yn bennaf am fod gan y Gymdeithas staff amser-llawn sy'n cyflawni'r dyletswyddau ariannol o ddydd-i-ddydd fel rhan o'u gwaith. At hynny, cynhaliwyd arolwg cynhwysfawr o systemau mewnol y Gymdeithas gan Owain Bebb a'i Gwmni, Caernarfon, yn ystod y flwyddyn, arolwg a ddangosodd fod gweithdrefnau'r Gymdeithas yn rhai cadarn.

I gloi

Hoffwn ddiolch i Nia Wyn Edwards a Judith Kaufmann am eu gwaith caled a'u hymroddiad i'r Gymdeithas ac i Berwyn Prys Jones, ein Cadeirydd, am ei gefnogaeth gyson a'i ffraethineb. Diolch hefyd i holl aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr, y Bwrdd Arholi Testunau, y Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd a'r Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol am eu ffyddlondeb i'r pwyllgorau hyn ac am eu doethineb wrth gyflawni eu gwaith.

Mae'r cydweithio braf rhwng y staff, y cyfarwyddwyr ac aelodau'r pwyllgorau yn un o gryfderau mawr y Gymdeithas a hir y parhaer hynny.

Geraint Wyn Parry

Prif Weithredwr

Gorffennaf 2012



Atodiad 1 - Byrddau a Phwyllgorau'r Gymdeithas

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn oedd:

Berwyn Prys Jones (Cadeirydd), David Bullock, Ann Corkett, Fiona Gannon, Heini Gruffudd, Wyn Hobson, Dewi Morris Jones, Elfrys Jones, Mary Jones, a Meinir McDonald. Roedd Ifor Gruffydd a Lowri Roberts yn aelodau cyfetholedig.

Cyfarfu Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 26 Gorffennaf 2011, 14 Rhagfyr 2011 a 28 Mawrth 2012.

Y Bwrdd Arholi Testunau

Aelodau'r Bwrdd Arholi Testunau yn ystod y flwyddyn oedd:

Berwyn Prys Jones (Cadeirydd), Ann Corkett, Meg Elis, Eric Evans, Fiona Gannon, Heini Gruffudd, Wyn Hobson, Dewi Morris Jones, Mary Jones, Sylvia Prys Jones, Meinir McDonald, Glenys Roberts, Megan Hughes Tomos, Heledd Williams, a Tegwen Williams.

Cyfarfu'r Bwrdd Arholi Testunau ar 10 Mehefin 2011 a 18 Tachwedd 2011.

Y Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd

Aelodau'r Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd yn ystod y flwyddyn oedd:

Wyn Hobson (Cadeirydd), Delyth Davies, Rhian Huws, Aled M. Jones, Siân Eleri Jones, Ann Llwyd, Siôn Aled Owen, Mair Parry-Jones, Helen Phillips, Richard Glyn Roberts, Elin Tudur, ac Angharad Watson.

Cyfarfu'r Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd ar 23 Mai 2011.

Y Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol

Aelodau'r Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol yn ystod y flwyddyn oedd:

David Bullock (Cadeirydd), Delyth Davies, Fiona Gannon, Berwyn Prys Jones, Claire Richards a Lowri Roberts.

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 20 Hydref 2011, 14 Rhagfyr 2011, a 28 Mawrth 2012.



Atodiad 2 - Gweithdai 2011-12

Sylwer fod y nifer a fu ym mhob gweithdy unigol wedi'i roi rhwng cromfachau

Hir a Byr: gweithdy cystrawennau cymhleth

Tiwtor - Berwyn Prys Jones

27 Mehefin 2011 – Galeri, Caernarfon (20)

28 Mehefin 2011 – Mudiad Meithrin, Aberystwyth (11)

Cyfieithu i'r Saesneg

Tiwtoriaid - Fiona Gannon a Wyn Hobson

5 Gorffennaf 2011 – Galeri, Caernarfon (canslwyd)

7 Gorffennaf 2011 – Age Cymru, Caerdydd (18)

Materion gramadeg

Tiwtor - Robat Trefor

13 Gorffennaf 2011 – Chapter, Caerdydd (14)

18 Gorffennaf 2011 – Prifysgol Bangor (Adran y Gymraeg) (8)

20 Gorffennaf 2011 – Mudiad Meithrin, Aberystwyth (7)

Cyfieithu i'r Gymraeg

Tiwtor - Megan Tomos

6 Medi 2011 – Gwersyll yr Urdd Caerdydd (14)

Dehongli a chyfleu ystyr

Tiwtor - Heini Gruffudd

3 Hydref 2011 – Age Concern Gwynedd a Môn, Caernarfon (10)

4 Hydref 2011 – Mudiad Meithrin, Aberystwyth (8)

11 Hydref 2011 – Amgueddfa'r Glannau, Abertawe (17)

Adnoddau'r cyfieithydd

Tiwtor – Claire Richards

9 Tachwedd 2011 – Gwersyll yr Urdd Caerdydd (9)

15 Tachwedd 2011 – Galeri, Caernarfon (8)

21 Tachwedd 2011 – Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin (9)

Cyfieithu'r ferf

Tiwtor – Dafydd Glyn Jones

17 Tachwedd 2011 – Prifysgol Aberystwyth (30)

29 Mawrth 2012 – Prifysgol Bangor (19)

Y cywair gweinyddol

Tiwtor – Mary Jones

2 Rhagfyr 2011 – Age Concern Gwynedd a Môn, Caernarfon (14)

6 Rhagfyr 2011 – Mudiad Meithrin, Aberystwyth (6)

9 Rhagfyr 2011 – Amgueddfa'r Glannau, Abertawe (11)



Amrywiaeth cyweiriau

Tiwtor – Meg Elis

7 Chwefror 2012 – Galeri, Caernarfon (canslwyd)

9 Chwefror 2012 – Mudiad Meithrin, Aberystwyth (6)

16 Chwefror 2012 – Gwersyll yr Urdd Caerdydd (14)

Idiomau, diarhebion, priod-ddulliau

Tiwtor – Huw Tegid

Chwefror 2012. Yn hwyr yn y dydd bu'n rhaid gohirio'r gweithdy am resymau a oedd y tu hwnt i'n rheolaeth. Gofynnwyd i Megan Tomos ail-gynnal y gweithdy 'Elfennau sylfaenol cyfieithu', ond ni chofrestrodd digon o bobl i gyfiawnhau ei gynnal.

Cyfieithu creadigol: cyfieithu llenyddiaeth plant

Cwrs ar y cyd â Thŷ Cyfieithu Cymru a oedd yn gyfrifol am drefnu'r rhaglen.

Tiwtoriaid – Sampurna Chattarji, Mererid Hopwood, Jyrki Kiiskinen, Gerdur Kristny, Mairwen Prys Jones

10-11 Mawrth 2012 - Tŷ Newydd, Llanystumdwy (10)

Cywair plant a phobl ifanc

Tiwtor - Elin Meek a Mari Watkin

15 Mawrth 2012 - Gwersyll yr Urdd Caerdydd (16)

23 Mawrth 2012 - Galeri, Caernarfon (15)

